

Cyngor Cymuned Llanelian (330)

Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 1 2020 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Ian Evans, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Thomas Jones, Elfyn Hughes, Hefina Williams, Cyng Aled Morris Jones, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Arfon Morgan, Cyng. Richard Jones, Cyng Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Ian Evans ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.

2 Datgan Diddordeb

Dim

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 3/11/2020. Cynnig Hefina Williams, eilio John Griffiths, cefnogi'n unfrydol.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

Nododd y clerch ei bod wedi anfon dogfen i'r aelodau cyn y cyfarfod gydag unrhyw ddiweddariadau.

4.1 Materion Prifffyrdd – cadarnhaodd y clerch ei bod wedi ebostio Alun Roberts a'r aelodau sirol AMJ dwywaith ers y cyfarfod diwethaf am fanylion pellach a chadarnhad pa bryd fyddai'r gwaith yn cael ei gwblhau. Mae disgwyl gwybodaeth pellach ynglyn a'r llinellau melyn, arwyddion 20mya, palmant yn y sgwar a newid blaenoriaeth ar gyffordd Lon yr Ysgol. Cyng Aled Jones i ddilyn i fynu gyda'r swyddogion.

4.2 Ymateb i gais am wybodaeth ar geisiadau cynllunio - Cadarnhaodd y clerch ei bod wedi cysylltu CET a Dewi Jones am ganllaw pellach ac wedi derbyn ymateb gan Nia Jones. Nododd ei bod wedi anfon yr ymateb i'r aelodau drwy ebost er gwybodaeth. Bu nodi mai dim ond i un cwestiwn geir ateb. Cytuno ysgrifennu eto a gofyn os oedd unrhyw fwrriad o ddatblygu polisi cynllunio atodol ar gyfer rhandai, a hefyd cadarnhad ble yn y broses cynllunio bod angen cyfiawnhau'r angen am y datblygiad. Cynnig Dafydd Griffiths, eilio Hefina Williams.

5 Sedd Wag

Cafwydd gadarnhad gan y clerch bod y rhybydd cyntaf wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd ac ar wefan y cyngor. Mae'r dyddiad cau i alw etholiad 1/12/2020. Os na fydd cais am etholiad bydd ail rybydd i'w arddangos er mwyn rhoi cyfle i'r cyngor gyfethol aelod newydd. Unwaith daw cadarnhad gan y swyddfa etholaeth bydd y clerch yn anfon yr ail rybydd i'r aelodau ac yn ei arddangos yn briodol. CET

6 Diweddariadau

6.1 Caeau Chwarae – mae'r gwaith wedi ei gwblhau gan Playquest yng Nghae Lon Tyddyn Waen ac mae D Holdsworth wedi twtio'r gwrychyn ac ymylon y cae. Mae'r goal ends wedi eu gosod ym Maes Llwyfo ac yn boblogaidd iawn gyda'r plant a phobl ifanc. Diolchwyd i'r clerch am roi datganiad ar Facebook mai gwaith y Cyngor Cymuned oedd y goliau newydd.

Daw adroddiadau Medwyn Owen, dim byd mawr angen sylw ond nodi bod llwybrau Maes Llwyfo AMJ angen peth gwaith ac yn gwaethygu (enwedig ger y giat), a bod angen torri'r coed a gwrychyn mewn ambell i le yno. Sbwriel wedi ei daflu drosodd o Stad Dublin wedi ei nodi gyda Grwp Cynefin. Nodwyd bod baw ci yn parhau yn bryder. Cyng Aled Jones i gysylltu a'r swyddogion perthnasol yn CSYM.

Gofynnodd Glenys Jones os fyddai paentio gemau ar y llawr a tharmacio'r llwybr yn Maes Llwyfo GJ a'i ddatblygu yn lwybr beicio i blant yn brosiect posib ar gyfer arian grant yn unol ag ebost diweddar gan CSYM. Cytuno iddi gysylltu a'r swyddogion perthnasol a gwneud ymholiadau pellach. Nodwyd bod y Maes Llwyfo yn wlyb iawn ar hyn o bryd a bod peth dwr yn sefyll.

6.2 Llithrfa – Nid yw'r pwyllgor wedi cwrdd hyd yma.

6.3 Mynwent – Mae Richard Edwards yn parhau a'r gwaith clirio. Mae L Egan a'r teulu am gael costau gwahanol bosibiliadau er mwyn cyfrannu tuag at ddatblygu'r gerddi goffa / noddi mainc er cof am y teulu.

Cadarnhaodd y clerch ei bod wedi cysylltu a CSYM ynglyn ag arwydd tu allan i'r fynwent, nid oes CET gan CSYM arwydd o'r fath ond nid oes gwrthwynebiad i'r cyngor cymuned osod arwydd oni bai na

fydd ar y briffordd. Cytuno gosod arwydd A4 ar bolyn tu allan i'r fynwent gyda'r arwyddion dim cwn a manylion cyswllt hefyd wedi eu harddangos.

- 6.4 Cyllid a Pholisi** – nodwyd bydd angen i'r pwyllgor cwrdd ym mis Ionawr i drafod y gyllideb.
- 6.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – cadarnhawyd bod y pwyllgor newydd gwrdd. Cytuno bod angen trefnu arwydd i'w gosod ar/ger y goliau er mwyn cydnabod cyfraniad y gronfa. Cytuno ar yr un eirfa a'r garreg ger giat y Fynwent. CET
- Gofynnwyd i Cyng Aled Jones i weud ymholiadau pellach gyda swyddogion yr adran eiddo ynglyn a'r tir tu cefn i dai pensiynwyr yn y pentref. Y clerch i anfon y wybodaeth perthnasol ato. AMJ
CET
- Trafodwyd cofrestru'r gofeb yn eiddo i'r cyngor er mwyn gallu diogelu grantiau i'w gynnal. Penodwyd TR Evans Hughes a'i gwmni yn gyfreithwyr i ddelio a'r achos. Y clerch i gysylltu. CET
- 6.6 Llwybrau** – nid yw'r pwyllgor wedi cwrdd. Cadarnhaodd y clerch ei bod wedi cysylltu a'r swyddog tramwy am lwybr penodol ond heb gael ymateb hyd yma. Cytuno cysylltu eto os na fydd ymateb o fewn wythnos. CET
- 6.7 Pwyllgorau Allannol** –
- 6.7.1 Gorfodaeth Cynllunio – cafwyd grynoded gan Dafydd Griffiths yn dilyn sesiwn hyfforddiant. Nododd y dylai cynghorau sirol gael dau dim cynllunio sef polisi a datblygu. Nododd mai rol y cyngor cymuned oedd tynnu sylw at faterion, ond ei fod yn ddewisiol os oedd y swyddogion yn dilyn y mater i fynu byddai hyn yn esbonio pam nad yw CSYM pob tro yn ymateb i bryderon y cyngor cymuned. Nododd hefyd bod angen rheswm da iawn i wrthod cais cynllunio a pheidio datblygu.
- 6.7.2 Grwp Prosiect Wylfa Newydd – cafwyd grynoded o'r cyfarfod gan Dafydd Griffiths. Deallwyd bod y cais DCO i'w benderfynnu erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ddibynnol ar ddatblygwyr newydd, bydd newid i'r dechnoleg a ddefnyddwyd ond mae disgwyl i bopeth arall aros yr un fath h.y. nifer o loriau, gwelliannau ffyrdd ayyb. Nododd Cyng Aled Jones bod angen cadarnhad gan y llywodraeth a gwybod pwy/os fydd y safle yn cael ei ddatblygu cyn dod i benderfyniadau.
- 6.7.3 Cyngrair Twrcelyn - cafwyd grynoded o'r cyfarfod byr gan Dafydd Griffiths. Nododd bod y corff yn bwriadu cynnal cyfarfodydd ar amser gwahano o hyn allan er mwyn hybu mwy o bobl i fynychu.
- 6.7.4 Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon – yng nghyfarfod diwethaf y cyngor bu trafod cyfansoddiad drafft y grwp. Nododd Dafydd Griffiths nad oedd pob cyngor wedi derbyn y ddogfen a bod y corff wedi ceisio ymateb i'r awgrymiadau ble'n bosib. Penodwyd Dafydd Griffiths yn gadeirydd a Tim Turner yn ysgrifennydd a thrysorydd. Diolchwyd i Dafydd Griffiths am y diweddariad. Bu Cyng Aled Jones longyfarch Dafydd Griffiths am gael ei benodi'n gadeirydd y corff
- 6.7.5 Un Llais Cymru – cafwyd grynoded gan Ian Evans yn dilyn cyfarfod pwyllgor ardal ULLC. Nododd bod Dafydd Idriswyn (Llanfairpwll) wedi ei benodi'n gadeirydd. Ymysg y trafodaethau bu cydnabod y newid i oedran pleidleisio a'r pwysigrwydd o gynnwys pobl ifanc a cheisio eu hannog i gydweithio gyda'r cyngor cymuned.
- 6.7.6 Nododd Dafydd Griffiths bod sesiwn hyfforddi cynllunio arall i'w gynnal 9/12 ac y byddai yn fodlon mynychu onibai bod rhywun arall am fynd. Ni fu gwrthwynebiad gan nodi ei fod yn magu arbennigedd ym materion cynllunio a bod pob sesiwn yn adeiladu ar yr un blaenorol. DG

7 Cynllunio
Ni fu ceisiadau na phenderfyniadau gan CSYM.

8 Materion Ariannol

- 8.1 Taliadau**
Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£8170.20 NBB - Meinciau (i'w ad-dalu)
£25.00 RBL Poppy Appeal – Torch Coffa
£1600.00 R Williams – Llwybrau
£3174.00 Playquest – Cae Chwarae Lon Tyddyn Waen
£97.40 M Owen – Arolygon Caeau Chwarae
£200.00 D Holdsworth – Caeau Chwarae
£2884.56 Sportsafe UK – Goliau (i'w ad-dalu)
£301.77 Cyflog Clerch
£115.91 Goleuadau Nadolig i'r Goeden Newydd
£100.00 D Holdsworth – Caeau Chwarae

8.2 Ceisiadau am Arian

Dim

8.3 Archwiliad

Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr allannol a'r ffurflen blynyddol bellach wedi ei dderbyn gan BDO. Bu cydnabod cynnwys yr adroddiad a diolch i'r clerch am ei gwaith.

9 Iechyd a Diogelwch

Bu cydnabod derbyn adroddiadau dilgelwch Medwyn Owen ar gyfer y ddau gae chwarae.

Cafwyd wybod gan Gordon Hayes bod rhan o'r palmant yng Ngherrig Man wedi cracio ar yn disgyn i'r cae. Cytuno iddo anfon lluniau ymlaen i Cyng Aled Jones er mwyn trefnu ymweliad i'r safle gan y swyddogion perthnasol. GH AMJ

Nodwyd hefyd bod angen glanhau'r gwter ar hyd ymylon y ffordd osgoi gan fod dwr yn casglu yno. Mae hefyd angen gwirio'r ffosydd ger Tremarfor/Carreg Winllan. Y clerch i gysylltu a'r adran briffyrdd i dynnu sylw. CET

Cytuno cysylltu a CSYM am y gwli ger y goeden Nadolig. Teimlai'r aelodau bod angen diogelu'r twll gyda clawr neu ffens bwrpasol. Cyng Aled Jones i gysylltu a'r swyddogion perthnasol am ymweliad i'r safle cyn gynted a phosib. AMJ

10 Gohebiaeth

Cadarnhaodd y clerch bod unrhyw oherbiaeth wedi ei anfon ymlaen drwy ebost wrth eu derbyn.

11 Cystadleuaeth Ffenest Nadolig

Cytuno byddai cynnal cystadleuaeth addurno ffenest Nadolig gyda cyfle i bob aelwyd gyflwyno un cais. Cytuno byddai Hefina Williams yn trefnu hampr gwerth £25 yn wobr, cynnig Elfyn Hughes, eilio Carol Whitaker. Y clerch i rannu poster ar dudalen Facebook y pentref ac ar yr hysbysfwrdd cyn gynted a phosib. HFW CET

Cafwyd wybod gan Hefina Williams ei ynghlwm a threfnu ymweliad gan Sion Corn i garetref Bryn Mor, Nebo a'r prif stadau ym Mhenysarn noswyl Nadolig – bydd mwy o wybodaeth ar dudalen facebook y pentref mewn amser. Nododd hefyd bod trefniadau ar y gweill er mwyn galluogi'r pentref gymryd rhan i ganu'r garol gymunedol sydd yn ddiwyddiad cenedlaethol gyda phobl yn canu'r un garol o'u drws ar yr un pryd.

12 Yngynghoriad Clwb Golf Llangefni

Cadarnhawyd bod pawb wedi cael y wybodaeth berthnasol drwy ebost ynglyn a chau'r clwb a gwerthu'r ty a'r tir. Bwriedir defnyddio'r arian i ddatblygu Canolfan Plas Arthur. Ni fu gwrthwynebiad cau'r adnodd a gwerthu'r tyddyn ond rhaid cofio mai pres trethdalwyr Mon sydd wedi cynnal y clwb dros y blynyddoedd ac felly dylid fuddsoddi'r arian yng nghanolfannau hamdden yr ynys i gyd nid yn unig ym Mhlas Arthur. Cynnig Ian Evans, eilio Elfyn Hughes CET

13 Unrhyw fater ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf

Clwb Ieuentid – cafwyd wybod gan Carol Whitaker nad oedd y clwb yn cwrdd oherwydd cyfyngiadau covid. Yn hytrach mae gofyn i'r arweinyddion gerdded strydoedd gwahanol gymunedau a siarad gyda phobl ifanc syn ymgynull. Roedd aelodau'r cyngor yn bryderus iawn am ddiogelwch yr arweinyddion led led yr ynys. Cytuno byddai'r cyngor cymuned yn ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i'r arweinyddion petai angen. Cyng Aled Jones i drefnu cyfarfod brys gyda'r unigolion perthnasol. AMJ

14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf y cyngor nos Fawrth Ionawr 12, 2021 am 7 o'r gloch. Cytuno tra bod cyfarfod drwy gynhadledd fideo, byddai'r cyngor yn cwrdd ar yr ail nos Fawrth o'r mis nesaf y cyfarfod blynyddol.

Bu i'r cadeirydd didolch i bawb oedd ynghlwm a threfnu ac addurno'r Coed Nadolig pob pen i'r pentref a dymuno'r gorau i bawb am y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Bu'r cyfarfod orffen am 20.30

**Arwyddwyd
Ian Evans
Cadeirydd**